
# 33. Creu a Golygu Llinellau Amser/Siartiau Llif


## Cyflwyniad

Mae'r llinell amser/siart llif yn caniatáu i ni ddangos gwybodaeth mewn blociau ar hyd llinell amser neu gamau mewn siart llif.




Mae'r blociau'n ymddangos yn ddynamig ar y dudalen wrth i'r defnyddiwr sgrolio drwy'r llinell amser/siart llif.

Gall blociau gynnwys testun, dolen, llun a/neu ddolen PDF.



# Creu Llinell amser/Siart llif Newydd


Os ydych chi eisiau creu llinell amser/siart llif newydd, bydd angen i Gwasanaethau Gwybodaeth wneud gwaith gosod cychwynnol i chi. Cysylltwch â ni gyda manylion ynghylch ble yr hoffech i'r llinell amser/siart llif ymddangos ac fe wnawn ni gychwyn pethau i chi. Unwaith y bydd y llinell amser/siart llif wedi'i osod, gallwch barhau i ychwanegu'r blociau.

# Ychwanegu Bloc i'ch Llinell amser/Siart llif

1. Agorwch yr adran lle'r hoffech i'ch llinell amser/siart llif ymddangos.

2. Cliciwch ar y tab **Content**.


3. Fe welwch fod 2 ddarn o gynnwys na allwch ei olygu, gan ddefnyddio'r templed **'html code'**. Fel rheol cânt eu galw'n rhywbeth fel **'pre timeline'** a **'post timeline'**. Mae'r rhain yn bwysig ar gyfer gweithrediad y llinell amser/siart llif.




4. Cliciwch ar **Create content** a dewiswch **'Cody Timeline Item'**.

PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY 1872

5. Bydd y templed **Cody Timeline Item** yn ymddangos:




6. Rhowch enw i'ch eitem.

7. Dewiswch **Type** priodol:

   a. **Location** - dyma'r dewis safonol sy'n defnyddio eicon pin lleoliad.

   b. **Picture** - bydd hwn yn newid yr eicon i eicon llun.

8. Rhowch y testun yr hoffech iddo ymddangos yn y bloc yn y blwch '**Details**'.

9. Rhowch rif y dyddiad/cam yn y blwch '**Date**'.

10. Os hoffech ychwanegu dolen i'r bloc, mae 2 ddewis gan ddibynnu ar ba un ai yw'r ddolen ym mynd i rywle arall yn y CMS neu'n allanol:

    a. **CMS Link**:

        i. Cliciwch ar y botwm **'Add section link'** a dewiswch yr adran o'r naidlen **'Select section'** sy'n ymddangos.

        ii. Os hoffech ddefnyddio enw'r adran yr ydych yn cysylltu â hi fel testun y ddolen, gadewch y blwch **'Use default link text'** wedi'i dicio.

        iii. Os hoffech ddefnyddio testun gwahanol ar gyfer testun y ddolen, tynnwch y tic o'r blwch **'Use default link text'** a theipiwch y testun yr hoffech ei ddefnyddio yn y blwch **'Enter custom link text'**.

    b. **External Link**:

        i. Teipiwch neu ludo'r cyfeiriad gwe yr hoffech gysylltu ag ef i'r blwch **'External Link'**. Cofiwch wneud yn siŵr eich bod yn cynnwys y rhan http:// neu https:// o'r cyfeiriad gwe.

        ii. Teipiwch y testun yr hoffech ei ddefnyddio ar gyfer testun y ddolen yn y blwch **'External Link Text'**.

11. Os hoffech ychwanegu llun i'r bloc:

    a. Ticiwch y blwch ticio **'Use Image**?'.

    b. Cliciwch yn y blwch '**Image**' a dewch o hyd i'r llun yr hoffech ei ddefnyddio o'ch cyfrifiadur.

12. Os hoffech ychwanegu dolen PDF i'r bloc:
    a. Ticiwch y blwch ticio **'Use PDF**?'.
    b. Cliciwch yn y blwch drws nesaf i '**PDF**' a dewch o hyd i'r ffeil PDF yr hoffech ei defnyddio o'ch cyfrifiadur.
    c. Teipiwch y testun yr hoffech ei ddefnyddio ar gyfer y ddolen yn y blwch **'PDF Text'**.
13. Cliciwch ar y botwm **'Save changes'** i orffen.
14. Ailadroddwch y broses ar gyfer pob eitem yr hoffech ei hychwanegu.
15. Cofiwch y bydd angen i'r holl gynnwys yr ydych wedi'i greu gael ei gymeradwyo cyn y bydd yn ymddangos ar y wefan.

## Golygu Bloc yn eich Llinell amser/Siart llif

1. Agorwch yr adran lle mae'ch llinell amser/siart llif yn ymddangos.
2. Cliciwch ar y tab **Content**.
3. Cliciwch ar enw'r eitem yr hoffech ei golygu.
4. Gwnewch y newidiadau angenrheidiol, gan ddefnyddio'r wybodaeth ar y dudalen flaenorol i'ch helpu i wneud y golygu.
5. Cliciwch ar y botwm **'Save changes'** i orffen.
6. Ailadroddwch y broses ar gyfer pob eitem yr hoffech ei golygu.
7. Cofiwch y bydd angen i'r holl gynnwys yr ydych wedi'i greu gael ei gymeradwyo cyn y bydd yn ymddangos ar y wefan.

## Gorffen

Ar ôl i chi ychwanegu'r holl eitemau yr hoffech iddynt ymddangos ar eich llinell amser/siart llif, bydd angen i chi wneud yn siŵr eu bod yn y drefn iawn, a bod yr eitemau llinell amser '**pre**' a '**post**' yn y lle iawn. Dylech weld **'pre timeline'** ar frig y rhestr, yna'r blociau y gwnaethoch eu creu, gyda **'post timeline'** ar waelod y rhestr. Os nad oes modd i chi gael yr eitemau llinell amser '**pre**' a '**post**' yn y lleoliad cywir, cysylltwch â Gwasanaethau Gwybodaeth i gael cymorth.

Mae gwybodaeth am aildrefnu cynnwys ar gael yn Nhaflen Wybodaeth 8.



Adolygwyd: Ebrill 2023